EIN BRO NI
OUR COMMUNITY

ffilm CYMRU WALES

INTO FILM CYMRU

EIN BRO NI / OUR COMMUNITY

Dyddiad cau derbyn ceisiadau:	Dydd Gwener 17eg Mai, 2019 (4pm)
Dyddiad cychwyn y prosiect:	Dydd Llun 20fed Mai 2019
Cyllid Ar Gael:	hyd at £5,500
Lleoliad:	Gogledd Cymru, o fewn radiws o 50 milltir i Lanrwst, Conwy (cartref Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019)

Mae Ffilm Cymru Wales ac Into Film Cymru yn gwahodd ceisiadau gan ymarferwyr sy'n dymuno arwain ar brosiect creu ffilmiau gyda phobl ifanc ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019.

Bydd £5,500 yn cael ei ddyfarnu i'r ymarferydd llwyddiannus i weithio gyda myfyrwyr (11 – 16 oed) o dair ysgol gyfun o fewn 50 milltir i Lanrwst, cartref Eisteddfod Genedlaethol 2019.

Prosiect cyfrwng Cymraeg yw hon, felly rhaid i bob ymgeisydd fod yn siaradwr Cymraeg rhugl sydd â phrofiad o gynnal gweithdai addysg ffilm a chreu ffilmiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr ymarferydd yn arwain pob grŵp ysgol ar daith drwy'r broses gyfan o greu ffilm, o'r sgript i'r sgrin. Bydd hefyd sylfaen o 'lythrennedd ffilm' fel y bydd gan y myfyrwyr ddealltwriaeth sylfaenol o adrodd stori yn weledol cyn iddynt gychwyn ar y broses o greu eu ffilm eu hunain.

Mae gennym ddiddordeb clywed gan ymarferwyr creu ffilmiau o bob math, o animeiddio i ddogfen, i glywed sut byddent yn ymateb i amcanion y prosiect i arwain pobl ifanc drwy eu proses eu hunain er mwyn dal ysbryd cymunedau gogledd Cymru ar ffilm.

Rydym yn annog yr ymarferwyr i archwilio sut gallant ddefnyddio ffilmiau archif a hanes llafar fel rhan o'r prosiect hwn. Byddem hefyd yn annog ymgeiswyr i ystyried cyswllt sy'n pontio'r cenedlaethau ar draws y gymuned, gan ddefnyddio hyn i ganfod storïau i'w defnyddio yn sail i'w ffilmiau.

Bydd yr ymarferydd yn cynorthwyo'r gwaith o greu tair ffilm fer gan bobl ifanc a fydd yn dathlu storïau cyfareddol cymunedau yng ngogledd Cymru. Byddem yn annog i bob ffilm gael ei 'harwain gan y bobl ifanc' o ran penderfynu ar y themâu a'r cynnwys terfynol, ond disgwyliwn i bob cais gynnwys cynnig o opsiynau sy'n dweud wrthym sut gallent arddangos tirlun unigryw, iaith a hanfod cymuned yng Ngogledd Cymru ar ffilm.

Bydd gofyn i'r ymarferydd greu ffilm 'y tu ôl i'r llen' a fydd yn cyd-fynd â'r ffilmiau hyn ar y sgrin fawr. Bydd y ffilm ychwanegol hon yn etifeddiaeth i'r prosiect, i esbonio'r prosiect ei hun, a gall gael ei gwneud gan gynnwys y bobl ifanc neu beidio.

Caiff y ffilmiau eu dangos fel rhan o ddathliadau Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019 a bydd ar gael ar-lein ar ôl cwblhau'r prosiect.

AMCANION

- Creu cyswllt â thair ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg o fewn 50 milltir i Lanrwst. Bydd Into Film Cymru yn cynorthwyo'r cais llwyddiannus i recriwtio ysgolion i gymryd rhan yn y prosiect.
- Cyflawni rhaglen o lythrennedd ffilm a chreu ffilm, yn cynnwys o leiaf 8 sesiwn hanner diwrnod neu 4 sesiwn diwrnod llawn ym mhob ysgol.
- Cynnwys o leiaf 45 o gyfranogwyr, 11-16 oed, drwy gydol y prosiect, gyda charfan o 15 o bob ysgol ar gyfartaledd.
- Cynorthwyo'r gwaith o greu tair ffilm fer, un ar gyfer pob grŵp ysgol, a ffilm 'y tu ôl i'r llen' i ddangos y broses.
- Lle y bo'n briodol, ymgorffori ffilmiau archif a hanes llafar gan ddefnyddio cynnwys o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, Casglid y Werin Cymru, a BFIPlayer.
- Ystyried themâu allweddol pob un o'r ffilmiau a sut mae'r cynnwys yn cysylltu â chyd-destun yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma gynulliad o bobl o bob rhan o Gymru a chyfle i godi eu proffil wrth arddangos a dathlu nodweddion unigryw eu cymuned.
- Cynorthwyo Into Film Cymru i ddarparu DPP pwrpasol i athrawon yn y gymuned

ELFENNAU I'W CYFLAWNI

- Tair ffilm fer wedi'u creu can bobl ifanc, gyda chymorth ymarferydd, sy'n archwilio themâu 'Ein Bro Ni – Our Community'
- Un ffilm fer 'y tu ôl i'r llen' a fydd yn cyd-fynd â'r ffilmiau uchod i ddal proses y prosiect.
- Gwerthuso, yn unol â'r templedi a ddarperir gan Ffilm Cymru ac Into Film Cymru

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Ceisiadau'n agor	3ydd Mai 2019
Dyddiad cau derbyn ceisiadau	17eg Mai 2019
Cynnal panel asesu, a chyhoeddi'r ymgeisydd llwyddiannus	22ain Mai 2019
Contractio Gwneuthurwr Ffilm / Ymarferydd gyda chytundeb cyllido	24ain Mai 2019
Cydlynu sesiynau gyda'r ysgolion a chwrdd â phob athro	3 Mehefin – 7 Mehefin 2019
Gwneuthurwr Ffilm / Ymarferydd i gynnal sesiynau gyda'r ysgolion	10 Mehefin – 5ed Gorffennaf 2019
Dyddiad terfynol trosglwyddo'r ffilmiau gorffenedig	12fed Gorffennaf 2019
Dathliad dangosiad cyntaf y ffilmiau byr yn Cineworld, Llandudno, gydag Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd y cyfranogwyr yn cyflwyno pob ffilm ac yn cymryd rhan mewn sesiwn Cwestiwn ac Ateb gyda'r gynulleidfa.	Tuag at ddiwedd Gorffennaf 2019 – Dyddiad i'w gadarnhau
Dangosiad yn 'Sinemaes' yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019. Bydd y cyfranogwyr yn cyflwyno eu ffilmiau i gynulleidfa o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol gwadd.	3ydd – 10fed Awst 2019
DPP Creu Ffilmiau Into Film ym mhob ysgol / gyda phob ysgol	Medi 2019

Y BROSES YMGEISIO

Bydd disgwyl i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais er mwyn cyflwyno eu cais i gael ei ystyried. Bydd y ffurflen gais hon yn gofyn cwestiynau ynglŷn â sut mae nodau'r ymarferydd yn cyflawni'n erbyn yr amcanion uchod, gyda chynllun manwl a chyllideb gyda gwariant o hyd at £5,500.

Gan fod rhan o'r arian hwn yn deillio o'r loteri, 75% o'r arian yn unig a all gael ei ddarparu gan Ffilm Cymru ac Into Film Cymru, a rhaid i'r 25% arall fod yn arian cyfatebol neu gostau 'mewn nwyddau'. Gall Ffilm Cymru gynghori ar gostau cymwys os bydd angen.

Dylai'r ceisiadau gael eu cyflwyno i Ffilm Cymru erbyn y terfyn amser, sef 4pm ar ddydd Gwener 17eg Mai 2019.

Caiff pob cais ei asesu gan banel o aelodau Ffilm Cymru ac Into Film Cymru. Caiff yr ymgeisydd llwyddiannus ei gyhoeddi ar 22ain Mai a'i gontractio yn fuan wedyn.

Os ydych yn dymuno cyflwyno cais, cysylltwch â Nicola Munday (Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg) ar nicola@ffilmcymruwales.com i dderbyn ffurflen gais.

YR EISTEDDFOD A SINEMAES

Gŵyl Gymraeg o lenyddiaeth, cerddoriaeth a pherfformio yw Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a chaiff Eisteddfod 2019 ei chynnal yn Llanrwst, Sir Conwy, o'r 3ydd i'r 10fed Awst 2019.

Lansiwyd Sinemaes yn 2016 gan BAFTA Cymru, mewn cydweithrediad â phartneriaid creadigol cenedlaethol a rhanbarthol eraill, gan gynnwys Into Film Cymru a Ffilm Cymru Wales. Caiff Sinemaes ei gynnal yn yr Eisteddfod bob blwyddyn, ac mae'n rhaglen gyffrous o ddigwyddiadau, dangosiadau o ffilmiau newydd ac archif, gweithdai i blant, paneli trafod, digwyddiadau rhwydweithio a mwy. Nod y cyfan yw dathlu a hyrwyddo cynnwys sgrin Cymru.

Caiff prosiect 'Ein Bro Ni' ei arddangos yn ystod Sinemaes a chaiff ei ddatblygu ochr yn ochr â phrosiect creu ffilm arall, 'Be 'di hanes y lle 'ma?', gyda chymorth uniongyrchol yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y prosiect hwn yn cynnwys 7 o ysgolion cynradd yr ardal, a chaiff y ddwy set o ffilmiau eu cyflwyno a'u dangos mewn digwyddiadau cyhoeddus yn Cineworld ym mis Mehefin/Gorffennaf ac yn Sinemaes ym mis Awst, ynghyd â ffilmiau wedi'u creu gan 'Ein Bro Ni'.

FFILM CYMRU WALES

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru. Cynorthwywn waith datblygu ffilm, cynhyrchu ffilm, addysg ffilm, arddangos ffilm, datblygu busnes ffilm a datblygiad gyrfa gwneuthurwyr ffilm; cynigiwn hyfforddiant a chyngor i rai sy'n dyheu i fod yn rhan o'r sector ffilm, neu sydd eisoes yn rhan o'r sector, ac eiriolwn ar ran gwneuthurwyr ffilm a pholisi ffilm sy'n gweithio i bobl Cymru.

Cynorthwywn brosiectau sy'n ysbrydoli dysgu drwy ffilm. Mae ein cyllid addysg yn annog pobl o bob oed i ddarganfod sgiliau a chyfleoedd newydd drwy ddysgu am ffilm a thrwy ffilm.

Yn arwain ar ran Ffilm Cymru Wales: Nicola Munday (Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg)

INTO FILM CYMRU

Mae Into Film yn rhoi ffilm wrth galon datblygiad addysgol, diwylliannol a phersonol plant a phobl ifanc.

Daeth dros hanner ysgolion y Deyrnas Unedig i gyswllt â'n rhaglen o Glybiau Ffilm, dangosiadau sinema arbennig, ac adnoddau a hyfforddiant i gefnogi'r addysgu yn y dosbarth. Ynghyd â darparu cyfoeth o gynnwys ar-lein i gynulleidfaoedd ifanc, mae'n darparu cyfleoedd sy'n ysbrydoli plant a phobl ifanc 5-19 oed i ddysgu am ffilm a chreu ffilmiau, a datblygu angerdd at sinema.

Mae Into Film yn cynnal dau ddigwyddiad blaenllaw yn flynyddol. Mae Gŵyl Into Film yn galluogi mwy na 400,000 o blant a phobl ifanc i gael mynd i'r sinema am ddim. Ac mae Gwobrau Into Film yn dathlu cyraeddiadau disgyblion o bob rhan o'r Deyrnas Unedig, o ran creu ffilm a dysgu.

Yn arwain ar ran Into Film Cymru: Non Stevens (Rheolwr Rhaglenni - Into Film Cymru)